***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 803 (Cy.88)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Pellach) (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *21 Mawrth 2002* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 47, 105 a 106(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Pellach) (Cymru) 2002 a daw i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru (**2**).

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**3**)

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1989(**4**)); ac

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.

**Addasu Deddfau**

**2.** Mae Deddf 1972, Deddf 1989 a Deddf 2000, o'u cymhwyso at Gymru, yn cael eu haddasu yn unol ag erthyglau 3 i 6.

**Trefniadau i awdurdodau lleol gyflawni swyddogaethau**

**3.** Yn adran 101 o Ddeddf 1972 Act(**5**) (trefniadau i awdurdodau lleol gyflawni swyddogaethau) —

(a) ar ôl is-adran (1), mewnosodir—

(**1**) 2000 p.22.
(**2**) I weld sut mae adrannau 47 a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn gymwys i Gymru, *gweler* adran 106(1) o'r Ddeddf honNo.
(**3**) 1972 p.70.
(**4**) 1989 c. 42.
(**5**) Ceir diwygiadau eraill i adran 101 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

"(1A) A local authority may not under subsection (1)(b) above arrange for the discharge of any of their functions by another local authority if, or to the extent that, that function is also a function of the other local authority and is the responsibility of the other authority's executive.

(1B) Arrangements made under subsection (1)(b) above by a local authority ("the first authority") with respect to the discharge of any of their functions shall cease to have effect with respect to that function if, or to the extent that,—

(a) the first authority are operating or begin to operate executive arrangements, and that function becomes the responsibility of the executive of that authority; or

(b) the authority with whom the arrangements are made ("the second authority") are operating or begin to operate executive arrangements, that function is also a function of the second authority and that function becomes the responsibility of the second authority's executive.

(1C) Subsections (1A) and (1B) above do not affect arrangements made by virtue of section 19 of the Local Government Act 2000 (discharge of functions of and by another authority)."; a

(b) ar ôl is-adran (5), mewnosodir—

"(5A) Arrangements made under subsection (5) above by two or more local authorities with respect to the discharge of any of their functions shall cease to have effect with respect to that function if, or to the extent that, the function becomes the responsibility of an executive of any of the authorities.

(5B) Subsection (5A) above does not affect arrangements made by virtue of section 20 of the Local Government Act 2000 (joint exercise of functions).".

**Penodi pwyllgorau**

**4.** Yn adran 102 o Ddeddf 1972(**6**) (penodi pwyllgorau)—

(a) ar ôl is-adran (1), mewnosodir—

"(1A) For the purpose of discharging any function in pursuance of arrangements made under regulations made under section 18 of the Local Government Act 2000 (discharge of functions by area committees)—

(a) a local authority may appoint a committee of the authority; or

(b) any such committee may appoint one or more sub-committees."(**7**);

(b) yn is-adrannau (2) a (3), ar ôl "subsection (1)", ym mhob lle y gwelir y geiriau hynny, mewnosodir "or (1A)"; ac

(c) yn is-adran (4), ar ôl y geiriau "to advise the appointing authority or authorities", mewnosodir y geiriau ", or, where the appointing authority or each of the authorities operate executive arrangements, any executive of that or those authorities, or a committee or member of that executive,".

**Rheolau sefydlog mewn perthynas â staff awdurdodau lleol**

**5.** Yn adran 8 o Ddeddf 1989 (dyletswydd i fabwysiadu rheolau sefydlog mewn perthynas â staff), yn lle paragraff (d) o is-adran (4), rhoddir—

(**6**) Diwygiwyd adran 102(1) gan baragraff 31(1) o Atodlen 13 i Ddeddf Plant 1989 (p.41). Ceir diwygiadau eraill i adran 102 nad ydyn yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**7**) *Gweler* rheoliad 6 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/2287 (Cy.175)).

"(d) without prejudice to section 191(1) below, special provision in relation to the appointment of persons—

(i) in pursuance of section 9 below;

(ii) for the purposes of functions exercised by joint committees on which relevant authorities are represented; and

(iii) in pursuance of regulations made under paragraph 6 of Schedule 1 to the Local Government Act 2000 (mayor's assistant).".

**Hawliau aelodau cyd-bwyllgorau i bleidleisio**

**6.**—(1) Yn adran 13 o Ddeddf 1989(**8**) (hawliau aelodau o bwyllgorau penodol i bleidleisio: Cymru a Lloegr)—

(a) ar ôl is-adran (5), mewnosodir—

"(5A) Nothing in this section shall prevent the appointment of a council manager of a local authority, or one other officer of that local authority in that person's place, as a voting member of a joint committee, or a sub-committee of such a committee, where—

(a) that local authority have a mayor and council manager executive(**9**); and

(b) the joint committee or the sub-committee has been appointed for the purpose of discharging functions which, as respects that local authority, are the responsibility of that executive."; a

(b) yn is-adran (9), ar ôl y geiriau "In this section -", mewnosodir—

""council manager", "executive" and "mayor and council manager executive" have the same meaning as in Part II of the Local Government Act 2000 (arrangements with respect to executives etc.); and".

(2) Ym mharagraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf 2000 (trefniadau gweithrediaeth: darpariaeth bellach (Gweithrediaethau maer a rheolwr cyngor))—

(a) yn is-baragraff (10), yn lle'r geiriau "sub-paragraph (11)", rhoddir y geiriau "sub-paragraphs (11) and (12A)"; a

(b) ar ôl is-baragraff (12), mewnosodir—

"(12A) The council manager of a local authority is entitled to vote at a meeting of a joint committee, or sub-committee of such a committee, if—

(a) that joint committee or sub-committee has been appointed for the purpose of discharging functions which, as respects that local authority, are the responsibility of the executive of the local authority; and

(b) the council manager is a member of that joint committee or sub-committee.".

**Rheolau sefydlog mewn perthynas â chontractau awdurdodau lleol**

**7.**—(1) Cyn i awdurdod lleol roi trefniadau gweithrediaeth ar waith o dan Ran II o Ddeddf 2000 rhaid iddynt wneud rheolau sefydlog o dan adran 135 o Ddeddf 1972 (contractau awdurdodau lleol) mewn perthynas â gwneud contractau ar eu rhan wrth i swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod hwnnw gael eu cyflawni.

(**8**) Diwygiwyd adran 13(9) gan baragraff 36 o Atodlen 4 i Ddeddf yr Heddlu a Llysoedd Ynadon 1994 (p. 29) a pharagraff 96(5) o Atodlen 37 a Rhan 1 o Atodlen 38 i Ddeddf Addysg 1996 (p.56). Ceir diwygiadau eraill i adran 13 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**9**) *Gweler* rheoliadau 11 a 12 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/2287 (Cy.175)).

(2) Rhaid i'r rheolau sefydlog gynnwys darpariaeth ar gyfer sicrhau bod rhaid i unrhyw gontract sydd—

(a) o werth a bennir gan yr awdurdod yn y rheolau sefydlog, neu o werth uwch na hynny; neu

(b) o ddisgrifiad a bennir gan yr awdurdod yn y rheolau sefydlog, fod yn ysgrifenedig.

(3) Rhaid i swyddogaeth pennu gwerth neu ddisgrifiad contractau at ddibenion y paragraffau sy'n ofynnol o dan baragraff (2) gael eu cyflawni gan yr awdurdod ei hun ac ni fydd adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau i awdurdodau lleol gyflawni swyddogaethau) yn gymwys mewn perthynas â'r swyddogaeth honNo.

(4) Rhaid i'r rheolau sefydlog gynnwys darpariaeth ar gyfer sicrhau bod rhaid i unrhyw gontract y mae'r darpariaethau sy'n ofynnol o dan baragraff (2) yn gymwys iddo—

(a) cael ei wneud o dan sêl yr awdurdod a chael ei ardystio gan o leiaf un swyddog i'r awdurdod nad yw, yn achos awdurdod ag iddo weithrediaeth maer a rheolwr cyngor, yn rheolwr i'r cyngor, p'un a gaiff y sêl ei hardystio hefyd neu beidio—

(i) gan unrhyw un o aelodau'r awdurdod; neu

(ii) yn achos awdurdod ag iddo weithrediaeth maer a rheolwr cyngor, gan reolwr y cyngor; neu

(b) cael ei lofnodi gan o leiaf ddau o swyddogion yr awdurdod, p'un a yw'r contract yn cael ei lofnodi gan aelod o'r awdurdod hefyd neu beidio.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**10**)

*D. Elis-Thomas*
21 Mawrth 2002 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**10**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn addasu deddfwriaeth ac yn gwneud darpariaethau eraill er mwyn rhoi eu heffaith lawn i ddarpariaethau yn Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") (trefniadau mewn perthynas â gweithrediaethau etc.) ac o ganlyniad i hynny. Mae'r Gorchymyn yn gymwys i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru.

Mae Erthygl 3 yn addasu adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972 "). Mae Erthygl 3(a) yn atal yr awdurdodau lleol rhag gwneud trefniadau i swyddogaethau gael eu cyflawni gan awdurdod lleol arall i'r graddau y mae'r swyddogaeth o dan sylw yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod lleol arall hwnnw. Mewn achosion o'r fath, fe allai'r swyddogaeth (i'r graddau hynny) ddod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod lleol hwnnw, ond nid i'r awdurdod lleol ei hun.

Mae'r addasiadau yn erthygl 3 yn darparu hefyd fod y trefniadau i swyddogaethau awdurdod lleol gael eu cyflawni gan naill ai awdurdod lleol arall neu gyd-bwyllgor sy'n bodoli pryd y mae unrhyw un o'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan ynddo yn dechrau rhoi trefniadau gweithrediaeth ar waith yn dod i ben i'r graddau y daw'r swyddogaeth o dan sylw yn gyfrifoldeb i weithrediaeth unrhyw un o'r awdurdodau hynny.

Mae Erthygl 4 yn addasu adran 102 o Ddeddf 1972 i alluogi'r awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau ardal er mwyn cyflawni swyddogaethau a ddirprwyir gan y weithrediaeth. Bydd y diwygiad yn fodd hefyd i'r awdurdodau lleol benodi pwyllgorau ymgynghorol i gynghori gweithrediaeth yr awdurdod lleol ac unrhyw bwyllgor neu aelod unigol o'r weithrediaeth honNo.

Mae Erthygl 5 yn addasu adran 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989"), gan alluogi rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch rheolau sefydlog yr awdurdodau lleol mewn perthynas â staff gynnwys darpariaeth arbennig mewn perthynas â phenodi cynorthwyydd maer awdurdod lleol.

Os oes gan awdurdod lleol weithrediaeth maer a rheolwr cyngor, mae Erthygl 6 yn addasu adran 13 o Ddeddf 1989 i sicrhau y caiff rheolwr y cyngor, neu unrhyw swyddog arall a benodir yn lle'r person hwnnw, fod yn aelod sy'n pleidleisio o unrhyw gyd-bwyllgor (neu o is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath) sy'n arfer swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth ac y mae'r person hwnnw yn aelod ohoNo. Mae'r erthygl hon hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i Atodlen 1 i Ddeddf 2000.

Mae Erthygl 7 yn cyflwyno gofyniad i awdurdodau lleol sydd wrthi yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth o dan Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, neu a fydd yn eu gweithredu, wneud rheolau sefydlog mewn perthynas â chontractau'r awdurdod lleol ac yn pennu'r darpariaethau sydd i'w cynnwys yn y rheolau sefydlog, gan gynnwys y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth i gontractau o'r fath gael eu gwneud.